



CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU  
THE LEARNED SOCIETY OF WALES

# Gadael cymynrodd ar gyfer dysgu yng Nghymru



Canllaw i adael rhodd yn eich ewyllys i  
Gymdeithas Ddysgedig Cymru



# Neges gan y Llywydd



Os ydym yn buddsoddi mewn dysgu heddiw, byddwn yn elwa yfory.

Sefydlwyd Cymdeithas Ddysgedig Cymru gyda'r gred bod gan Gymru dalent fawr ar draws y byd dysgu. Rydym yn dathlu'r dalent honno drwy ein Cymrodoriaeth, sydd yn 2021, yn cynnwys dros 550 o bobl eithriadol.

Yn ei dro, rydym yn defnyddio gwybodaeth gyfunol ein Cymrodyr i hyrwyddo ymchwil, darparu cyngor arbenigol, ac ysbrydoli cenedlaethau newydd o dalent.

Mae gadael cymynrodd yn chwarae rhan bwysig yn ein gwaith o fynd i'r afael â heriau Cymru yn y dyfodol. Drwy ein cofio yn eich ewyllys, byddwch yn helpu i barhau â'n gweithgareddau hanfodol.

Diolch yn fawr am gymryd yr amser i ystyried gadael rhodd i'r Gymdeithas.

**Yr Athro Hywel Thomas**

---

**Cymdeithas Ddysgedig Cymru**

lsw@wales.ac.uk

**[www.cymdeithasddysgedig.cymru](http://www.cymdeithasddysgedig.cymru)**

Rhif corfrestru'r elusen 1168622



## Y gwahaniaeth y gallwn ei wneud

Mae gadael rhodd yn eich ewyllys yn gallu helpu'r Gymdeithas i barhau i ffynnu fel unig academi ddysgu genedlaethol Cymru.

Mae rhoddion o bob maint yn gallu ein helpu ni i gyflawni'r canlynol:

- **Tyfu ein Cymrodoriaeth:** cwmpasu ystod fwy amrywiol o arbenigwyr yn y gwyddorau, y dyniaethau, y celfyddydau a gwasanaethau cyhoeddus
- **Sefydlu Academi Gyrfaoedd Cynnar i Gymru:** cefnogi ymchwilwyr i rannu eu gwaith, i gydweithio ac i ddatblygu eu sgiliau
- **Cryfhau llais Cymru dros addysg uwch ac ymchwil:** sicrhau y gall cenedlaethau'r dyfodol fwynhau cymuned ddysgu ffyniannus
- **Ysbrydoli pobl yng Nghymru a thu hwnt:** adeiladu ar gyflawniadau anhygoel ein hymchwilwyr a'n haddysgwyr

## Gadael cymynrodd

Os ydych chi'n ystyried gadael rhodd i'r Gymdeithas, eich dewis chi yw penderfynu sut y bydd eich rhodd yn cefnogi dysgu yng Nghymru.

Mae rhoddion digyfngiad yn rhoi'r hyblygrwydd mwyaf i ni ddyrannu eich cymorth yn ofalus i faes lle mae'r angen mwyaf. Os ydych chi'n bwriadu gadael cymynrodd at ddiben penodol, byddem yn falch iawn o drafod hyn gyda chi, a helpu gyda geiriad eich ewyllys.

Mae sawl ffordd o adael rhodd yn eich ewyllys. Gallwch roi:

- Cyfran o'ch ystâd (a elwir yn gymynrodd weddilliol)
- Swm penodol o arian (cymynrodd ariannol)
- Tir, adeiladau neu eiddo eraill

Os ydych chi wedi gwneud ewyllys yn barod, mae'n hawdd iawn gwneud ychwanegiad (a elwir yn codisil).

Ar gyfer ystadau sy'n fwy na'r trothwy treth etifeddiant o £325,000, bydd eich ystâd yn cael y fantais o beidio â thalu treth o 40% ar eich rhodd i'r Gymdeithas.

**Mae'r wefan 'Remember A Charity' yn darparu adnoddau defnyddiol a dolenni i ragor o wybodaeth sydd yn gallu helpu:**

[www.rememberacharity.org.uk/leaving-a-gift](http://www.rememberacharity.org.uk/leaving-a-gift)

# Ffurflen Adduned Cymynrodd

**Hoffem ddiolch i chi am ystyried gadael rhodd i'r Gymdeithas. Os ydych chi'n bwriadu gadael cymynrodd, byddem yn ddiolchgar iawn pe gallech roi gwybod i ni drwy lenwi'r ffurflen adduned hon.**

Mae hyn yn ein helpu i gynllunio ar gyfer y dyfodol, ac yn rhoi cyfle i ni ddiolch i chi. Wrth gwrs, nid yw adduned o'r fath yn gyfreithiol rwymol, ac nid yw'n eich ymrwymo i unrhyw weithrediad.

## Ticiwch y bocs priodol

Rwyf wedi cynnwys y Gymdeithas yn fy ewyllys yn barod

Rwyf yn bwriadu cynnwys y Gymdeithas yn fy ewyllys

Hoffwn drafod gadael cymynrodd i'r Gymdeithas – cysylltwch â mi i drafod hyn

Nid oes gennyf ddiddordeb mewn gadael cymynrodd – peidiwch â chysylltu â mi ynghylch hyn yn y dyfodol.

**(Os yn gynnwys)** Pa fath o gymynrodd ydych chi'n bwriadu ei gwneud?

Gwaddol gweddilliol (% o weddill fy ystâd)

Cymynrodd ariannol (swm penodol o arian)

Tir, adeiladau neu eiddo eraill

Efallai eich bod chi eisiau rhoi rhagor o fanylion yma:

Os yw'n bosib, teipiwch yn uniongyrchol ar y ffurflen ac hon, eithrio PDF a'i e-bostio at Olivia Harrison ([prifweithredwr@cddc.cymru.ac.uk](mailto:prifweithredwr@cddc.cymru.ac.uk)).

Neu, gallwch anfon copi papur at:  
Cymdeithas Ddysgedig Cymru, Cofrestrfa'r Brifysgol,  
Rhodfa'r Brenin Edward VII, Caerdydd CF10 3NS.

## Manylion cyswllt

Teitl:

Enw llawn:

Cyfeiriad:

Cod post:

Gwlad:

E-bost:

Ffôn:

Diolch am roi gwybod i ni beth yw eich bwriadau. Byddwn yn trin yr wybodaeth a ddarparwch yn gyfrinachol, a byddwn yn ei storio ar ein cronfa ddata ddiogel.

Os hoffech drafod unrhyw agwedd ar adael cymynrodd, cysylltwch â'n Prif Weithredwr,  
**Olivia Harrison:**

[prifweithredwr@cddc.cymru.ac.uk](mailto:prifweithredwr@cddc.cymru.ac.uk)  
**+44 (0) 29 2037 6951**